| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **16 MAWRTH 2026** |
| TEITL: | **DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI DIWYGIEDIG** |
| PWRPAS: | **Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi** |
| ARGYMHELLIAD: | **MABWYSIADU'R DATGANIAD** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'n ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi Datganiad Strategaeth Buddsoddi (DSB). Mae'r datganiad wedi ei adolygu yn dilyn y prisiad teirblynyddol 31 Mawrth 2025.

## 2. DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI DIWYGIEDIG

**2.1** Mae'r DSB hwn wedi'i baratoi mewn ymgynghoriad â Ymgynghorwyr Buddsoddi'r Gronfa, Hymans Robertson.

Mae'n ofynnol i baratoi a chynnal DSB sy'n dogfennu sut mae'r strategaeth fuddsoddi ar gyfer y Gronfa yn cael ei phennu a'i gweithredu. Mae'n ofynnol i'r DSB gwmpasu nifer o feysydd, yn benodol:

- y gofyniad i fuddsoddi arian ar draws ystod eang o fuddsoddiadau
- asesiad o addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiad
- y canran uchaf y mae'r awdurdodau yn ystyried y dylid ei ddyrannu i wahanol ddosbarthiadau asedau neu fathau o fuddsoddiad, er nad yw terfynau ar ddyraniadau i unrhyw ddosbarth asedau yn cael eu rhagnodi fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan Reoliadau 2009
- agwedd yr awdurdod at risg, gan gynnwys mesur a rheoli risg
- dull yr awdurdod o bwlio buddsoddiadau
- polisi'r awdurdod ar ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethu corfforaethol

- polisi'r awdurdod mewn perthynas â stiwardiaeth asedau, gan gynnwys arfer hawliau pleidleisio

Mae'r DSB terfynol yn Atodiad A.

**2.2** Mae'r DSB wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r dyraniad asedau strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2025, ac i ymgorffori rôl newydd Cwmni Rheoli Buddsoddi PPC.

**2.3** Mae'r DSB yn Atodiad A.

## 3. ARGYMHELLIAD

Bod y Datganiad Strategaeth Buddsoddi yn cael ei fabwysiadu.